Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
13/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
09/02/2023

# Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 5, Mawrth 2022

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN Digidol 978-1-80535-423-9

# Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 5, 2022

Awdur:
Chris Timmins, Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Timmins, C. (2022). *Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 5, 2021.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad YGLI 13/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/agweddau-cyhoeddus-gosbi-plant-yn-gorfforol-cam-5-mawrth-2022

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Benjamin Lewis
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys

Contents

1. Cyflwyniad ..... 4

1.1 Cefndir ac amcanion ..... 4

1.2 Nodyn ar newidiadau i’r dull o gasglu data ar gyfer arolwg 2020, 2021 a 2022 5

1.3 Ynglŷn â’r adroddiad hwn ..... 6

2. Agweddau tuag at smacio ..... 8

3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol ..... 12

4. Ymwybyddiaeth o newidiadau i’r ddeddfwriaeth ..... 17

5. Barn am y newidiadau i’r ddeddfwriaeth ..... 25

6. Casgliadau ..... 33

Atodiad A – Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta ..... 32

Atodiad B – Holiadur yr arolwg ..... 35

Atodiad C – Dull ymchwil ..... 40

Atodiad D – Disgrifiad o’r newid i’r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i ymatebwyr yn arolwg mis Tachwedd 2021 ..... 42

Atodiad E – Diffiniad o raddau cymdeithasol ..... 43

Atodiad F – Meintiau is-samplau ..... 44

## Rhestr o ffigurau a thablau


Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022) ..... 8

Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb a pha un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau - Mawrth 2022) ... 9

Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb ac yn ôl y rhywiau a grwpiau oedran - Mawrth 2022) ..... 10

Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Mawrth 2022) ..... 11

Ffigur 3.1: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022) ..... 13

Ffigur 3.2: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Mawrth 2022) ..... 13

Ffigur 3.3: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb ac yn ôl y rhywiau ac yn ôl grŵp oedran - Mawrth 2022) ..... 14

Ffigur 3.4: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Mawrth 2022) ..... 15

Ffigur 3.5: Y ganran a oedd yn meddwl bod pob lefel o gosb yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith bresennol ..... 16

Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022) ..... 17

Ffigur 4.2 Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Mawrth 2022) ..... 18

Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol - Mawrth 2022) ..... 19

Tabl 4.1: Allwch chi ddweud wrthyf sut fydd y gyfraith yn newid yn eich tyb chi? - Mawrth 2022 [Digymell] ..... 20

Tabl 4.2: Sut ddaethoch chi’n ymwybodol o’r newid i’r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol? - Mawrth 2022 ..... 21

Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022) ..... 22

Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio – Mawrth 2022) ..... 23

Ffigur 4.6: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol - Mawrth 2022) ..... 24

Ffigur 5.1: Barn am y newid i’r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022) ..... 25

Ffigur 5.2: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Mawrth 2022) ..... 26

Ffigur 5.3: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl grŵp oedran - Mawrth 2022) ..... 27

Ffigur 5.4: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl y rhywiau - Mawrth 2022) ..... 28

Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? - Mawrth 2022 [Digymell] ..... 29

Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pan eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? – Mawrth 2022 [Digymell] ..... 31

Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? - Mawrth 2022 [Digymell] ..... 32

Tabl A1.1: Ymchwil Flaenorol Berthnasol g ..... 35

Tabl A1.2: Diffiniadau o raddau cymdeithasol ..... 43

Tabl A1.3: Meintiau samplau'r is-grwpiau ..... 44

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir ac amcanion

1.1 Cyflwynwyd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru[1] ar 25 Mawrth 2019. Ar 20 Mawrth 2020 cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Bydd y ddeddf newydd yn dod i rym ar 21 Mawrth 2022.

1.2 Amcan trosfwaol y ddeddfwriaeth yw helpu i amddiffyn hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol yn erbyn plant, trwy gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Byddai hyn yn golygu nad yw'r amddiffyniad ar gael mwyach o fewn tiriogaeth Cymru i rieni neu'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant), fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin ar blentyn neu guro plentyn sydd yn eu gofal.

1.3 Mae Adran 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Mawrth 2022. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith. Fe adolygwyd ei hymgyrch arfaethedig i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws, i ganolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio gyda chynulleidfaoedd penodol a hybu a chefnogi rhianta cadarnhaol tan haf 2021. Dechreuodd ymgyrch amlgyfrwng i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, sy'n cynnwys hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, yn ysgafn ym mis Mehefin 2021 gyda hysbysebu digidol, ac fe lansiodd yn llawn ym mis Medi 2021, chwe mis cyn cychwyn y newid i'r ddeddfwriaeth. Bu'r bwrlwm mwyaf o ran gweithgarwch cyfathrebu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022, yn union cyn cychwyn y newid i'r ddeddfwriaeth. Bwriedir i weithgarwch codi ymwybyddiaeth barhau am rai blynyddoedd yn dilyn cychwyn y newid i'r ddeddfwriaeth i wreiddio ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yng Nghymru.

1.4 Amcan yr ymchwil hon oedd adeiladu ar donnau blaenorol o ymchwil a gynhaliwyd yn 2018, 2019, 2020 a 2021 o ran agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi

[1] Ym mis Mai 2020 cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ailenwi'n Senedd Cymru [Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (llyw.cymru)]

plant yn gorfforol gan gynnwys y ddeddfwriaeth. Cyflawnwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolwg hwn rhwng 28 Chwefror a 20 Mawrth 2022, yn union cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailadrodd y cwestiynau hyn yn rheolaidd i dracio ymwybyddiaeth a barn y cyhoedd wrth i'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd fynd rhagddo dros nifer y flynyddoedd.

## 1.2 Nodyn ar newidiadau i'r dull o gasglu data ar gyfer arolwg 2020, 2021 a 2022

1.5 Fe wnaed y gwaith maes ar gyfer arolygon 2020, 2021 a 2022 yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd Covid-19. O ystyried y cyfyngiadau a oedd mewn grym yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd yn bosibl cynnal yr arolwg yn yr un modd â'r tonnau blaenorol. Yn 2018 a 2019, defnyddiodd yr ymchwil ddull a weinyddwyd gan gyfwelydd wyneb-yn-wyneb yn y cartref.

1.6 Fe gwblhawyd arolygon 2020, 2021 a 2022 trwy ddull hunangwblhau ar-lein gan ddefnyddio panel ar-lein[2]. Er bod yr arolwg ar-lein a'r arolygon wyneb-yn-wyneb blaenorol wedi'u bwriadu i gynhyrchu samplau cynrychiolaidd o'r boblogaeth oedolion (16+ oed) yng Nghymru, mae'n bosibl y gallai'r newid dull fod wedi cael rhywfaint o effaith ar y canlyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd rhai ymatebwyr yn ateb yn wahanol pan nad oes cyfwelydd yn bresennol, ac mae angen i rai cwestiynau a oedd yn ddigymell yn flaenorol gael eu fframio'n wahanol pan nad oes cyfwelydd yn bresennol i godio atebion. Er ei bod yn anodd bod yn bendant ynglŷn â hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau'n tueddu i fod yn fwy ar gyfer cwestiynau sy'n holi am werthoedd ac ymddygiad, gydag effeithiau llai ar gyfer gwybodaeth fwy ffeithiol[3]. Dylai unrhyw ddiffyg newid mewn canlyniadau rhwng tonnau cyn y newid dull a'r don gyfredol gael ei ddehongli â phwyll; gallai diffyg newid fod i'w briodoli'n gyfan gwbl, yn rhannol neu beidio â bod i'w briodoli o gwbl i'r newid mewn dull. Dylai unrhyw newidiadau mewn canlyniadau o donnau cyn y newid dull a'r don gyfredol gael eu dehongli â phwyll; gallai newid fod i'w briodoli'n gyfan gwbl, yn rhannol neu beidio â bod i'w briodoli o gwbl i'r newid mewn dull. Ar gyfer

[2] Grŵp o gyfranogwyr ymchwil sydd wedi cofrestru i cael cyswllt o bryd i'w gilydd i gwblhau arolygon ar-lein yw panel ar-lein.

[3] Cabinet Office (2019), Community life survey: investigating the viability of moving from a face-to-face to an online/postal mode: evidence from a series of methodological studies 2012-2015, Adran 9.3

unrhyw donnau o ymchwil yn y dyfodol, bydd yr arolwg yn parhau i gael ei gynnal trwy hunangwblhau ar-lein gan bod cyfrwng yr arolwg, Arolwg Omnibws Cymru Beaufort, wedi newid yn barhaol i'r dull hwn o gasglu data. Mae rhagor o wybodaeth am ddull yr arolwg yn 2022 i'w chael yn Atodiad C.

### 1.3 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1.8 Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymchwil a gynhaliwyd ar Arolwg Omnibws Cymru Beaufort rhwng 28 Chwefror a 20 Mawrth 2022, a gyfwelodd â sampl seiliedig ar gwota cynrychiolaidd o 1,000 o oedolion 16+ oed ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhieni/gwarcheidwaid ac oedolion nad ydynt yn rhieni/gwarcheidwaid. Mae canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cael eu cymharu'n fynych yn yr adroddiad hwn â setiau sydd bron union yr un fath o gwestiynau[4] a ofynnwyd fel rhan o Arolygon Omnibws Cymru Beaufort ym mis Tachwedd 2018, mis Tachwedd 2019, mis Tachwedd 2020 a mis Tachwedd 2021. Cynhelir pob Arolwg Omnibws Cymru gyda samplau ar wahân o oedolion 16+ yng Nghymru sy'n cyfateb â'i gilydd o ran demograffeg megis oedran, rhyw, rhanbarth a gradd gymdeithasol, er bod arolygon 2020, 2021 a 2022 (fel a nodwyd yn yr adran flaenorol) wedi cael eu cynnal trwy hunangwblhau ar-lein yn hytrach na'r dull gweinyddu gan gyfwelydd wyneb-yn-wyneb a ddefnyddiwyd yn 2018 a 2019. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o ymchwil rhianta a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2013. Ceir tabl o adroddiadau yn Atodiad A.

1.9 Roedd yr holiadur ar gyfer yr arolwg hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau am agweddau tuag at smacio, ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol ac ymwybyddiaeth a barn am newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Cafodd cwestiynau demograffig eu cynnwys hefyd fel arfer safonol yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr ac mae i'w gael yn Atodiad B ar ddiwedd y ddogfen hon.

---

[4] Yr unig ddiwygiadau bychain i arolygon 2020, 2021 a 2022 oedd nad oedd cwestiynau 4, 6, 7 ac 8 yn dweud 'newidiadau arfaethedig' mwyach fel yr oeddent yn 2018 a 2019 am eu bod yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2020. Hefyd, yn 2020, 2021 a 2022 yng nghwestiwn 1, roedd *'ddim yn gwybod'* yn god ymateb o gael arweiniad yn hytrach na chael ei gofnodi'n ddigymell yn unig yn 2018/2019 gan adlewyrchu'r newid dull o arolwg wyneb-yn-wyneb i arolwg ar-lein. Roedd yr un peth yn wir am gwestiwn 3 ar gyfer codau ymateb *'ddim yn gwybod'* ac *'wedi gwrthod'*. Yn olaf (ac eto gan adlewyrchu'r newid i ddull ar-lein) yng nghwestiwn 6 roedd ymatebwyr yn cael eu harwain â rhestr o ffynonellau ymwybyddiaeth yn 2020, 2021 a 2022 tra bo'r rhestr hon yn 2018/2019 yn ddigymell.

## 1.4 Profion ystadegol


1.10 Drwy’r adroddiad hwn dygir cymariaethau rhwng gwahanol grwpiau o’r boblogaeth (er enghraifft, y rhai o wahanol grwpiau oedran neu ryw) i ddeall a yw eu hagweddau, eu hymddygiadau neu eu gwybodaeth yn amrywio. Ceir cymariaethau hefyd rhwng gwahanol flynyddoedd yr arolwg i ganfod a fu newidiadau dros amser. Mae’r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau rhwng grwpiau o’r boblogaeth a hefyd i gymharu canlyniadau dros amser. Lle nodir bod gwahaniaeth rhwng dau grŵp neu ddau gyfnod o amser yn ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad drwy siawns yn llai nag un mewn 20 ac felly y gellir ei gyffredinoli i’r boblogaeth ehangach.

# 2. Agweddau tuag at smacio

2.1 Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*. Roedd y farn ynglŷn â hyn ar draws pum ton yr arolwg wedi'i hollti, i ryw raddau, er bod mwy yn anghytuno â'r datganiad hwn nag oedd yn cytuno ag ef ym mhob ton.

2.2 Yn yr arolwg diweddaraf, roedd 23% yn cytuno a 62% yn anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*. Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfrannau a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r datganiad yn fwy na'r gwahaniaeth a oedd yn bodoli yn arolwg 2021 (30% yn cytuno, 53% yn anghytuno) ac yn wir yn fwy nag mewn unrhyw gyfnod arall pan gynhaliwyd yr arolwg. Roedd y gwahaniaeth hwn rhwng 2021 a 2022 yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.1: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022)**





*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), 2022 (1,000)*

2.3 Roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed neu iau, sef rhieni, gwarcheidwaid neu aelodau eraill o'r teulu sy'n rhoi gofal rheolaidd, yn fwy tebygol o anghytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn* – 71% o'i gymharu â 58% ymhlith y rhai heb gyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau (ffigur 2.2).

Mae’r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli’r canfyddiad i’r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.2: Y ganran a oedd yn cytuno ‘ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn’ (Pawb a pha un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau - Mawrth 2022)**





*Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (285), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (711)*

2.4 Er bod y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau, a’r rhai heb y cyfrifoldebau hynny, yn dangos cynnydd yn y cyfrannau sy’n anghytuno *ei bod hi weithiau’n angenrheidiol smacio plentyn* o’i gymharu â 2021 (63% o’i gymharu â 71% a 49% o’i gymharu â 58% yn y drefn honno) dim ond yn yr ail grŵp (y rhai sydd ddim yn ofalwyr am blant 7 oed ac iau) y mae’r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly’n gallu cael ei gyffredinoli i’r boblogaeth ehangach.

2.5 Fel a ddangosir yn Ffigur 2.3, pan ydym yn archwilio hyn yn ôl oedran yr ymatebydd, rydym yn canfod bod y rhai yn y grŵp oedran hŷn (55+) yn fwy tebygol o gytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn* – ar 34% roedd hyn oddeutu dair gwaith yn fwy na nifer yr ymatebwyr 16-34 oed a oedd yn arddel y farn hon (11%). Er ei fod yn llai amlwg nag yn ôl oedran, canfuwyd gwahaniaeth barn yn ôl y rhywiau hefyd gyda 27% o ddynion yn cytuno â'r datganiad o'i gymharu ag 19% o fenywod. Roedd y gwahaniaethau a nodwyd yn ôl oedran a'r rhywiau yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg yn ôl oedran a'r rhywiau yn 2021.

**Ffigur 2.3: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl y rhywiau a grwpiau oedran - Mawrth 2022)**





*Sail: Pawb (1,000), Dynion (422), Menywod (575), 16-34 (370), 35-54 (364), 55+ (266)*

2.6 O'i gymharu â 2021, mae gan bob grŵp oedran a dynion a menywod lai sy'n cytuno *ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn*. Ac eithrio'r rhai 16-34 oed, roedd gwahaniaethau ym mhob grŵp rhwng 2021 a 2022 yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

2.7 Mae Ffigur 2.4 yn dangos canfyddiadau ar gyfer yr un mesur yn ôl gradd gymdeithasol[5]. Roedd barn y rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1[6] yn debyg i farn y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE. Mae hyn yn cyfnerthu'r un canfyddiad o arolygon 2019, 2020 a 2021.

**Ffigur 2.4: Y ganran a oedd yn cytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn' (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Mawrth 2022)**




*Sail: Pawb (1,000), ABC1 (607), C2DE (393)*


[5] System ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth prif enillydd incwm yr aelwyd yw gradd gymdeithasol.
[6] Ceir diffiniadau o raddau cymdeithasol A, B, C1, C2, D, E yn Atodiad E

## 3. Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth bresennol

3.1 Y sefyllfa gyfreithiol o ran smacio plant neu gosbi plant yn gorfforol mewn ffordd arall yng Nghymru ar adeg yr arolwg hwn (28 Chwefror – 20 Mawrth 2022) oedd bod rhieni ac oedolion sy'n gweithredu *in loco parentis* (yn gweithredu â chyfrifoldeb rhiant) yn gallu defnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod cyffredin. Nid yw rhieni sy'n cosbi eu plant yn gorfforol yn gallu defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiadau o greulondeb, clwyfo neu ymosodiadau sy'n achosi gwir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro fel a ganlyn: "er bod unrhyw anaf sy'n fwy nag 'anaf dros dro neu fân anaf' yn gallu cael ei ystyried yn wir niwed corfforol, y cyhuddiad priodol fydd Ymosod Cyffredin lle nad oes unrhyw anaf yn digwydd neu lle ceir anafiadau nad ydynt yn ddifrifol".

3.2 Roedd cyfanswm o (84%) o bobl a arolygwyd yn 2022 yn meddwl nad oedd y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant. Dim ond 1 ymhob 10 (10%) oedd yn meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio a dywedodd y 6% sy'n weddill nad oeddent yn siŵr. Mae'r rhai a oedd yn credu 'yn gywir' (ar yr adeg y gofynnwyd iddynt) bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant wastad wedi bod yn y lleiafrif ar draws cyfnodau'r pum arolwg, ond yr arolwg diweddaraf (a gynhaliwyd hyd at y diwrnod olaf cyn i'r gyfraith newid) yw'r un lle cofnodwyd y gyfran isaf a oedd yn arddel y farn hon. Hyd yn oed o'i gymharu ag arolwg mis Tachwedd 2021 mae llai'n credu yn awr bod smacio'n cael ei ganiatáu (10% o'i gymharu ag 16%). Mae'r gwahaniaeth hwn yn yr ymatebion rhwng arolygon 2022 a 2021 yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 3.1: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022)**




*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000) 2022 (1,000)*

3.3 Ychydig o wahaniaethau a welir mewn gwybodaeth am y gyfraith ar smacio yn ôl pa un a yw unigolyn yn ofalwr am blant saith oed neu iau ai peidio. Roedd cyfrannau tebyg o'r naill grŵp a'r llall yn meddwl bod smacio'n cael ei ganiatáu ar hyn o bryd (13% a 9% yn y drefn honno).


**Ffigur 3.2: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Mawrth 2022)**




*Sail: Pawb Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (285), DDIM yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (711)*

3.4 Nid oedd ymwybyddiaeth pa un a oedd smacio'n cael ei ganiatáu ai peidio'n amrywio yn ôl y rhywiau fel a ddangosir yn ffigur 3.3. Fodd bynnag, roedd y bwlch ychydig yn fwy yn ôl oedran (roedd 14% o'r rhai 16-34 oed yn credu bod smacio'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â 7% o'r rhai 55+ oed), ac roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach


**Ffigur 3.3: Y ganran sy'n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio'u plant (Pawb ac yn ôl y rhywiau ac yn ôl grŵp oedran - Mawrth 2022)**




*Sail: Pawb (1,000), Dynion (422), Menywod (575), 16-34 (370), 35-54 (364), 55+ (266)*

3.5 Ni welir unrhyw wahaniaeth mewn gwybodaeth am y gyfraith ar smacio yn ôl gradd gymdeithasol wahanol. Mae un ymhob deg o bob grŵp (grwpiau ABC1 a grwpiau C2DE), fel a ddangosir yn ffigur 3.4, yn credu bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant.

**Ffigur 3.4: Y ganran sy’n credu bod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio’u plant (Pawb ac yn ôl gradd gymdeithasol - Mawrth 2022)**





*Sail: Pawb (1,000), ABC1 (607), C2DE (393)*

3.6 Wedyn hysbyswyd yr unigolion fod y gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni smacio eu plant neu eu disgyblu’n gorfforol a gofynnwyd i’r ymatebwyr pa lefel o gosb oedd y gyfraith yn ei chaniatáu yn eu tyb hwy. Mae’r opsiynau a roddwyd iddynt i’w cael yn ffigur 3.5 ynghyd â’r gyfran o bobl a oedd yn meddwl bod pob lefel yn cael ei chaniatáu (roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn).

3.7 Roedd oddeutu dwy ran o dair (66%) yn meddwl y byddai cosb nad oedd yn gadael unrhyw farc o gwbl ar y plentyn yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith. Roedd llawer llai (21%) yn meddwl y byddai cosb a oedd yn achosi i’r croen gochi dros dro yn cael ei chaniatáu. Dim ond cyfran fach iawn oedd yn meddwl y byddai lefelau uwch o gosb gorfforol megis rhywbeth sy’n gadael clais am ychydig ddyddiau (3%) neu’n gadael marciau neu gleisiau sy’n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw’n arwain at anaf corfforol parhaol (3%) yn cael eu caniatáu gan y gyfraith. Dywedodd ychydig o dan un rhan o bump (19%) nad oeddent yn gwybod pa lefel o gosb fyddai’n cael ei chaniatáu. Roedd y canfyddiadau’n debyg i’r rhai a gafwyd yn yr holl arolygon blaenorol.

**Ffigur 3.5: Y ganran a oedd yn meddwl bod pob lefel o gosb yn cael ei chaniatáu gan y gyfraith bresennol**





*Sail: Pawb - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), 2022 (1,000)*

## 4. Ymwybyddiaeth o newidiadau i'r ddeddfwriaeth

4.1 Yn yr arolwg diweddaraf, dywedodd dwy ran o dair (66%) o bobl eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol ar lefel ddigymell[7]. Mae hyn yn newid sylweddol o'i gymharu ag arolwg 2021 pan oedd 40% yn ymwybodol o'r newidiadau. Mae'r cynnydd hwn ers 2021 mewn ymwybyddiaeth o'r newid yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.1: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022)**





*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), 2022 (1,000)*

4.2 Roedd ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yn uwch ymhlith gofalwyr am blant saith oed ac iau na'r rhai a oedd heb y cyfrifoldebau hyn – 77% o'i gymharu â 63% (ffigur 4.2). Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

[7] Ni chafodd yr ymatebwyr unrhyw fanylion ar gyfer newidiadau posibl ar yr adeg hon a gofynnwyd iddynt - '*Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?'*

**Ffigur 4.2 Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Mawrth 2022)**





*Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (285), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (711)*

4.3 Mae cyfran y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ymhlith y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant 7 oed ac iau a'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu ag arolwg 2021 (44% i 77% a 39% i 63% yn y drefn honno). Mae'r gwahaniaethau hyn dros amser yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

4.4 Fel a ddangosir yn ffigur 4.3, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth ymhlith gwahanol grwpiau gradd gymdeithasol. Mae hyn mewn cyferbyniad ag arolwg 2021 lle'r oedd y rhai yng ngraddau cymdeithasol C2DE (36%) yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid na'r rhai yng ngraddau cymdeithasol ABC1 (44%).

4.5 Roedd ymatebwyr iau 16-34 oed yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r newid i'r ddeddfwriaeth na'r rhai yn y grwpiau oedran hŷn, 35-54 a 55+ oed (56% o'i gymharu â 70% a 71%). Roedd y gwahaniaeth hwn hefyd yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.3: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [Digymell] (Pawb ac yn ôl oedran a gradd gymdeithasol - Mawrth 2022)**




*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (370), 35-54 (364), 55+ (266), ABC1 (607), C2DE (393)*

4.6 Nodwyd lefelau uwch o ymwybyddiaeth ddigymell o'r newid ym mhob grŵp oedran ac ym mhob grŵp gradd gymdeithasol yn 2022 o'i gymharu â 2021. Roedd yr holl wahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau hyn i'r boblogaeth ehangach.

4.7 Gofynnwyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth (668 o ymatebwyr) ddisgrifio yn eu geiriau eu hunain sut yr oeddent yn meddwl y byddai'r gyfraith yn newid. Wedyn cafodd eu hymatebion eu grwpio'n themâu ac fe'u dangosir yn nhabl 4.1. Yr ymateb mwyaf mynych o bell ffordd oedd y 'smacio / cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon'. Fe wnaeth y mwyafrif llethol (89%) o'r rhai a oedd yn ymwybodol o newid grybwyll hyn yn ddigymell.

**Tabl 4.1: Allwch chi ddweud wrthyf sut fydd y gyfraith yn newid yn eich tyb chi? - Mawrth 2022 [Digymell]**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Smacio \ cosbi'n gorfforol yn cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon | 89 (*n.589)* |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Cosbau i'r rhai sy'n smacio plant | |
| Dim cyswllt corfforol o gwbl | |
| Ddim yn gallu cael ei ddefnyddio fel amddiffyniad cyfreithiol mwyach | |
| Ro'n i'n meddwl bod smacio eisoes yn anghyfreithlon | |
| Syniad da \ ddim yn cytuno â smacio | |
| Wedi gweld rhywbeth \ wedi clywed amdano (amhenodol) | |

*Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (668)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

4.8 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai a ganfuwyd mewn arolygon blaenorol yn yr ystyr mai *Smacio'n cael ei wahardd [yn gyfan gwbl] \ y bydd yn anghyfreithlon* oedd yr ateb a grybwyllwyd fynychaf o bell ffordd o 2018 i 2021 er bod y gyfran sy'n dweud hyn wedi cynyddu dros amser (64%, 69%, 73%, 84% ac 89% yn y drefn honno).

4.9 Gofynnwyd hefyd i'r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ddweud sut yr oeddent wedi dod yn ymwybodol o'r newid (tabl 4.2). Yn yr arolwg diweddaraf, gweld rhywbeth ar y teledu – newyddion \ rhaglen yw'r ffynhonnell ymwybyddiaeth a grybwyllwyd fynychaf o hyd (40% yn crybwyll hynny). At ei gilydd, mae'r ffynonellau ymwybyddiaeth o'r newid a enwyd yn arolwg 2022 yn cael eu crybwyll ar lefelau tebyg i arolygon blaenorol. Y prif eithriadau yw codiadau yn y crybwylliadau yn 2022 ar gyfer Hysbyseb ar y teledu – 22% o'r rhai a oedd yn ymwybodol yn 2022 o'i gymharu ag 13% yn 2021, a Facebook – 15% yn 2022 o'i gymharu â 9% yn 2021.

**Tabl 4.2: Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol? - Mawrth 2022**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** ***(Nifer yr ymatebwyr)*** |
|---|---|
| Ar y teledu – newyddion \ rhaglen | 40 (*n.266)* |
| Hysbyseb ar y teledu | 22 (*n.51)* |
| Facebook | 15 (*n.99)* |
| Gwefan ar-lein – eitem newyddion | 15 (*n.98)* |
| Ar y radio – newyddion \ rhaglen | 12 (*n.78)* |
| Y cyfryngau cymdeithasol (heblaw Facebook) | 12 (*n.78)* |
| Dywedodd rhywun wrthyf (teulu \ ffrindiau) | 11 (*n.76)* |
| Radio - hysbyseb | 9 (n.62) |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - newyddion \ erthygl | 9 (*n.59)* |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru - hysbyseb | 6 (n.43) |
| Taflen drwy'r drws | 6 (n.38) |
| Papur newydd lleol - newyddion \ erthygl | 5 (n.33) |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - newyddion \ erthygl | 5 (*n.30)* |
| **Ymatebion eraill a roddwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Cylchgrawn | |
| Dywedodd rhywun wrthyf (gweithiwr proffesiynol) | |
| Gwefan ar-lein - arall | |
| Papur newydd a gyhoeddir ledled y DU - hysbyseb | |
| Papur newydd lleol - hysbyseb | |


*Sail: Y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol – digymell (668)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

4.10 Ar ôl i ni ofyn am eu hymwybyddiaeth ar lefel ddigymell, cyflwynwyd disgrifiad o'r newid deddfwriaethol (sydd i'w weld yn Atodiad D) i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am hyn. O gael eu harwain, dywedodd mwy o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth nag a wnaeth ar lefel ddigymell (gweler ffigur 4.1). Roedd cyfanswm o 78% yn gwybod rhywbeth am y newid a hynny'n cynnwys 42% a ddywedodd eu bod yn ymwybodol ohono a grŵp mwy (36%) a oedd yn ymwybodol ond nad oeddent yn siŵr o'r manylion.

4.11 Mae hyn yn gynnydd mewn ymwybyddiaeth o gael eu harwain o'i gymharu ag arolwg 2021 pan oedd 63% yn gwybod rhywbeth. Yn arbennig, mae'r gwahaniaeth

rhwng y rhai a oedd yn ymwybodol o'r cynnig (heb y cafeat nad oeddent yn ymwybodol o'r manylion) yn dyblu rhwng 2021 (21%) a 2022 (42%). Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 4.4: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022)**




*Sail: Pawb – 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), 2022 (1,000)*

4.12 O gael eu harwain fel hyn roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth na'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn – 85% o'i gymharu â 75% (ffigur 4.5). Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.5: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio – Mawrth 2022)**





*Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (285), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (711)*

4.13 Mae cyfran y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth o gael eu harwain fel hyn ymhlith y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant 7 oed ac iau a'r rhai heb y cyfrifoldebau hyn wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu ag arolwg 2021 (67% i 85% a 61% i 75% yn y drefn honno). Mae'r gwahaniaethau hyn dros amser yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

4.14 Fel gydag ymwybyddiaeth ddigymell, ychydig o wahaniaeth oedd mewn ymwybyddiaeth o'r newid deddfwriaethol yn ôl grŵp gradd gymdeithasol pan oeddent yn cael eu harwain â disgrifiad ohono. O ran oedran (a chan adlewyrchu'r canfyddiadau ynglŷn ag ymwybyddiaeth ddigymell hefyd), roedd ymatebwyr 16-34 oed yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth o gael eu harwain fel hyn – 71% o'i gymharu â 79% ac 82% ar gyfer y rhai 35-54 a 55+ oed yn y drefn honno. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 4.6: Y ganran a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol [O gael eu harwain] (Pawb ac yn ôl grŵp oedran a gradd gymdeithasol - Mawrth 2022)**




*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (370), 35-54 (364), 55+ (266), ABC1 (607), C2DE (393)*


4.15 Nodwyd lefelau uwch o ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth pan oedd ymatebwyr yn cael eu harwain ym mhob grŵp oedran a phob grŵp gradd gymdeithasol yn 2022 o'i gymharu â 2021. Roedd yr holl wahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

## 5. Barn am y newidiadau i'r ddeddfwriaeth

5.1 A hwythau wedi cael gweld y disgrifiad o'r newid, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol, a oeddent yn ei erbyn neu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i allu penderfynu.

5.2 Fel a ddangosir yn ffigur 5.1, yn yr arolwg diweddaraf roedd bron i 6 ymhob 10 (59%) o blaid cael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn wedi cynyddu o'i gymharu â 2021 (48%) ac mae cefnogaeth ar ei lefel uchaf ers dechrau ei mesur trwy'r arolygon. Er y bu cynnydd o 20 pwynt canran mewn cefnogaeth i'r newid i'r ddeddfwriaeth dros y tri arolwg diwethaf (2020, 2021, 2022) nid yw'r gyfran sy'n gwrthwynebu'r newid dros yr un cyfnod wedi newid rhyw lawer (2020 – 25%, 2021 – 24%, 2022 – 20%). Felly, mae'r newid mewn cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth dros y tair blynedd ddiwethaf wedi digwydd yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y cyfrannau a nododd fod arnynt 'Angen rhagor o wybodaeth / eu bod ddim yn siŵr o'u barn'. Roedd y gwahaniaethau hyn yn y farn am newid deddfwriaethol rhwng 2021 a 2022 yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 5.1: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb – 2018, 2019, 2020, 2021, 2022)**




*Sail: Pawb - 2018 (1,002), 2019 (1,002), 2020 (1,002), 2021 (1,000), 2022 (1,000)*

5.3 Roedd y rhai â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau yn fwy tebygol o fod o blaid y newid arfaethedig (63% o blaid, 15% yn erbyn) o'i gymharu â'r rhai a oedd heb y cyfrifoldebau hyn (57% o blaid, 22% yn erbyn). Fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly ni ellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 5.2: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (%) (Pawb ac yn ôl pa un a ydynt yn ofalwr rheolaidd am blentyn saith oed neu iau ai peidio - Mawrth 2022)**




*Sail: Pawb (1,000), Gofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (285), Ddim yn ofalwr rheolaidd am blentyn 7 oed neu iau (711)*

5.4 Canfuwyd gwahaniaethau barn yn ôl oedran hefyd. Yn y grwpiau oedran 16-34 a 35-54, roedd ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o fod *o blaid* yn hytrach nag *yn erbyn* y newid i'r ddeddfwriaeth, fel a ddangosir yn ffigur 5.3. Fodd bynnag, ymhlith yr ymatebwyr 55+ oed roedd y farn ychydig yn fwy cymysg gydag ychydig yn llai na'u hanner (46%) yn cefnogi'r newid ac oddeutu 3 ymhob 10 (29%) yn ei erbyn. Roedd y gwahaniaethau hyn yn ôl oedran yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach. Canfuwyd gwahaniaethau tebyg yn ôl oedran yn arolygon 2018, 2019, 2020 a 2021 hefyd.

**Ffigur 5.3: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl grŵp oedran - Mawrth 2022)**





*Sail: Pawb (1,000), 16-34 (370), 35-54 (364), 55+ (266)*

5.5 Wrth gymharu barn y tri grŵp oedran dros amser, cofnodwyd cynnydd ym mhob un o'r tri o ran y cyfrannau sydd o blaid y newid o'i gymharu â 2021 gyda +9 pwynt canran ar gyfer ymatebwyr 16-34 oed, +10 pwynt canran ar gyfer ymatebwyr 35-54 oed a +12 pwynt canran ar gyfer y rhai 55+oed. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

5.6 Yn arolwg 2022 (fel yn 2021), canfuwyd gwahaniaethau hefyd yn ôl y rhywiau o ran barn ymatebwyr am y newid deddfwriaethol. Roedd menywod yn llawer mwy tebygol o fod o blaid y newid (65%) nag yn ei erbyn (14%). Er bod mwy o ddynion o blaid y newid nag oedd yn ei erbyn, roedd y bwlch rhwng y ddwy gyfran yn gulach (52% o blaid, 27% yn erbyn). Mae'r gwahaniaethau hyn o ran y rhywiau'n arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 5.4: Barn am y newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol (Pawb ac yn ôl y rhywiau - Mawrth 2022)**




*Sail: Pawb (1,000), Dynion (422), Menywod (575)*

5.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro'u rhesymau dros eu barn ynglŷn â'r newid deddfwriaethol. Eto, roedd hyn yn eu geiriau hwy eu hunain ac mae'r ymatebion wedi cael eu grwpio'n themâu cyffredin. Mae Tabl 5.1 yn dangos y rhesymau a nodwyd dros fod o blaid y newid (619 o ymatebwyr). Yr ymateb mwyaf mynych oedd eu bod 'ddim yn cytuno â smacio neu gosbi plant yn gorfforol' (54% o'r rhai a oedd o blaid y newid). Hwn oedd yr ymateb mwyaf mynych yn arolygon 2018, 2019, 2020 a 2021 hefyd (42%, 40%, 38% a 38% yn y drefn honno).

5.8 Amlygodd rhai 'bydd [y newid i'r ddeddfwriaeth] yn helpu i amddiffyn plant' (12%) neu fod '[smacio yn] niweidiol i blant' (10%), mai 'cam-drin ydyw' (10%) neu fod 'rhai rhieni'n mynd yn rhy bell' (6%). Roedd eraill yn teimlo '[nad] yw'n gweithio' (5%), bod 'ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da' (12%) a '[nad] yw'n wers dda' (7%).

**Tabl 5.1: Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? - Mawrth 2022 [Digymell]**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr *(Nifer yr ymatebwyr)* |
|---|---|
| Ddim yn cytuno â smacio \ cosbi plant yn gorfforol | 54 (*n.316)* |
| Mae ffyrdd eraill o sicrhau ymddygiad da \ disgyblaeth | 12 (*n.71)* |
| Bydd yn helpu i amddiffyn plant | 12 (*n.71)* |
| Cam-drin ydyw \ gall arwain at gam-drin | 10 (*n.57)* |
| Mae'n niweidiol i blant | 10 (n.56) |
| Nid yw'n wers dda \ mae'n rhoi anogaeth i ddefnyddio trais | 7 (n.42) |
| Mae rhai rhieni'n mynd yn rhy bell | 6 (n.33) |
| Nid yw'n gweithio \ nid yw'n angenrheidiol | 5 (*n.27)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Cefais i fy nharo pan oeddwn yn blentyn | |
| Dydw i erioed wedi smacio fy mhlant | |
| Gwneud pethau'n fwy clir \ rhieni | |
| Mae tap yn iawn \ slap fach \ iawn os nad yw rhywun yn mynd yn rhy bell | |

*Sail: Y rhai sydd o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (619)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

5.9 O'r rhai a oedd yn erbyn y newid i'r ddeddfwriaeth (178 o ymatebwyr), un o'r prif resymau dros wrthwynebu'r newid oedd rheoli ymddygiad a disgyblaeth. Roedd tua dwy ran o bump (43%) o'r rhai a oedd yn erbyn y newid yn meddwl bod 'angen (y statws presennol) i reoli ymddygiad \ disgyblu'r plentyn \ addysgu am barch \ dangos ffiniau'. Fe wnaeth rhai sylwadau am y diffyg disgyblaeth ehangach mewn cymdeithas – 'does dim disgyblaeth \ parch y dyddiau hyn \ mae plant yn ymddwyn yn wael' (19%).

5.10 Myfyriodd eraill ynghylch eu profiadau hwy eu hunain gan ddweud eu bod yn erbyn y newid am 'nad yw [smacio] yn gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw niwed i mi \ i'm plant i' (17%). Fe wnaeth rhai amodi eu gwrthwynebiad i'r newid gan

ddweud y byddent hwy yn ei erbyn cyn belled â bod y gosb yn aros yn un ‘nad yw’n mynd yn rhy bell \ os yw’n gosb resymol’ (21%).

5.11 Mae’r rhesymau hyn a’r cyfrannau a’u nododd (ymhlith y rhai a oedd yn erbyn y newid i’r ddeddfwriaeth) yn adlewyrchu canlyniadau a ganfuwyd mewn arolygon blaenorol.

**Tabl 5.2: Allwch chi ddweud wrthyf pan eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru? – Mawrth 2022 [Digymell]**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr *(Nifer yr ymatebwyr)* |
|---|---|
| Mae ei angen i reoli ymddygiad \ disgyblu'r plentyn \ addysgu am barch \ dangos ffiniau | 43 (*n.87)* |
| Mae'n iawn os nad yw'n mynd yn rhy bell \ os yw'n gosb resymol | 21 (*n.43)* |
| Does dim disgyblaeth y dyddiau hyn \ mae plant yn ymddwyn yn wael \ dim parch | 19 (*n.39)* |
| Nid yw'n gwneud unrhyw niwed \ ni wnaeth unrhyw ddrwg i mi \ i'm plant i | 17 (*n.34)* |
| Dylai rhiant gael cosbi ei blentyn \ dylai fod â dewis \ dylai gael gwneud y penderfyniad | 7 (*n.14)* |
| Iawn pan fo'r plentyn mewn perygl | 6 (*n.11)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Anodd i'w blismona \ i'w orfodi \ i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | |
| Dros ben llestri \ ddim yn rhesymol | |
| I'w ddefnyddio fel dewis olaf | |
| Mae pob amgylchiad \ plentyn yn wahanol | |
| Mae'r gyfraith yn iawn ar hyn o bryd | |
| Ni ddylai gael ei wneud yn drosedd | |
| Ni ddylai'r Llywodraeth ymwneud â'r mater | |
| Nid oes mo'i angen | |

*Sail: Y rhai sydd yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (178)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

5.12 O ran y rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth cyn penderfynu (162 o ymatebwyr) yn bennaf roedd arnynt eisiau naill ai rhagor o fanylion neu wybodaeth ynglŷn â sut y byddai'n gweithio (34% of o'r rhai yr oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth) neu'n benodol hoffent pe bai mwy o eglurder yn y diffiniadau a oedd yn rhan o'r ddeddfwriaeth:

- Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu (10%)
- Diffiniadau \ enghreifftiau (13%)
- Diffiniad o gosb resymol (13%)

5.13 Mae'r ymatebion hyn yn debyg i'r rhai a gafwyd yn yr arolygon blaenorol.

**Tabl 5.3: Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth arall y mae arnoch ei hangen? - Mawrth 2022 [Digymell]**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr *(Nifer yr ymatebwyr)* |
|---|---|
| Rhagor o fanylion \ rhagor o wybodaeth \ sut y byddai'n gweithio | 34 (*n.56)* |
| Beth sy'n gyfystyr â smacio \ ymosod, yr hyn sy'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â'r hyn nad yw'n cael ei ganiatáu | 10 (*n.17)* |
| Diffiniadau \ enghreifftiau | 13 (*n.21)* |
| Diffiniad o gosb resymol | 13 (*n.21)* |
| Cosb \ cyhuddiadau i rieni | 7 (*n.11)* |
| Diogelu \ amddiffyn rhieni | 5 (*n.9)* |
| Ddim yn gwybod | 13 (*n.21)* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** | |
| Gwybodaeth am y gyfraith bresennol | |
| Sut y bydd yn cael ei blismona \ ei orfodi \ sut i ddarparu adnoddau ar ei gyfer | |
| Ymchwil \ tystiolaeth o effaith smacio | |

*Sail: Y rhai y mae angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu a ydynt o blaid ynteu yn erbyn newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru (162)*
*(a) Efallai fod cyfanswm y tabl yn fwy na 100 y cant am bod ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb*
*(b) Cyflwynir ymatebion eraill yn nhrefn yr wyddor*

# 6. Casgliadau

6.1 Er bod y farn yn gymysg i ryw raddau am y datganiad 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn', roedd y cyhoedd yn llai tebygol o gytuno â'r gosodiad hwn nag ar unrhyw adeg yn y pum mlynedd diwethaf (23% yn cytuno). Mae barn yn dal i fod yn gysylltiedig ag oedran gyda'r rhai dros 55 oed yn llawer mwy tebygol o gytuno 'ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn'. Fodd bynnag, hyd yn oed ymhlith y grŵp yma mae llai sy'n cytuno â'r datganiad nag sy'n anghytuno ag ef.

6.2 Ar draws pob un o'r pum arolwg (2018, 2019, 2020, 2021, 2022) ymddengys fod rhywfaint o gamddealltwriaeth ynghylch statws y ddeddfwriaeth ar adeg yr arolwg, gyda dim ond lleiafrif yn meddwl bod hyn yn cael ei ganiatáu. Wrth i ni symud yn nes at y dyddiad pan fydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym, daw'r lleiafrif hwn yn llai byth. Yn arolwg 2022, a gynhaliwyd yn union cyn i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym, roedd 10% yn meddwl bod smacio'n cael ei ganiatáu o'i gymharu â 27%, 28%, 22% ac 16% yn y drefn honno yn arolygon 2018, 2019, 2020 a 2021.

6.3 Mae arolwg 2022, a gynhaliwyd ar ôl ac yn ystod gweithgarwch cyfathrebu sylweddol, yn nodi newid sylweddol mewn ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol. Pan ofynnwyd iddynt ar lefel ddigymell a oeddent yn ymwybodol o'r newid deddfwriaethol mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol, dywedodd dwy ran o dair (66%) eu bod yn gwybod am rywbeth. Mae hyn yn cymharu â 40% yn 2021 a dyma'r lefel uchaf o ymwybyddiaeth ddigymell i gael ei chofnodi dros y pum mlynedd ddiwethaf.

6.4 Yn yr un modd, canfuwyd codiadau mewn ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth pan oedd ymatebwyr yn cael eu harwain. Pan oeddent yn cael disgrifiad o'r newid, dywedodd 78% fod ganddynt ymwybyddiaeth o hyn o'i gymharu â 62% yn 2021. Mae rhai gwahaniaethau yn y lefelau ymwybyddiaeth yn dal i fodoli, gyda'r rhai heb gyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau, a'r rhai 16-34 oed yn llai ymwybodol o'r newid. Fodd bynnag, yn berthynol i 2021, canfyddir codiadau mewn ymwybyddiaeth yn 2022 ar gyfer pob grŵp oedran, pob grŵp gradd gymdeithasol, a pha un a oes cyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau ai peidio.

6.5 Bu rhywfaint o newid hefyd yn y farn am gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol. Mae cyfran y rhai a oedd o blaid y newid deddfwriaethol wedi codi o 48% yn 2021 i 59% yn 2022. Mae hyn yn parhau â'r duedd tuag i fyny ers 2020, pan oedd 38% o blaid. Fodd bynnag, dros y cyfnod hwn nid yw'r gyfran sy'n gwrthwynebu'r newid wedi amrywio'n fawr (2020 – 25%, 2021 – 24%, 2022 – 20%). Mae'r cynnydd yn y gefnogaeth dros y tair blynedd ddiwethaf i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod llai wedi dweud bod arnynt angen rhagor o wybodaeth neu nad ydynt yn siŵr. Mae hyn yn awgrymu bod mwy o ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ymhlith y cyhoedd erbyn hyn.

## Atodiad A - Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar rianta

Mae'r Tabl isod yn nodi cyhoeddiadau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ar rianta a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru dros y naw mlynedd ddiwethaf.

**Tabl A1.1: Ymchwil Flaenorol Berthnasol g**

| Teitl | Dull a sampl | Diben |
|---|---|---|
| Agweddau tuag at arferion rhiant a disgyblu plant<br><br>**Cyhoeddwyd: 2014** | • Ansoddol<br>• 14 o grwpiau ffocws (70 o gyfranogwyr)<br>• Rhieni plant dan 18<br>• Yn 2013 | Archwilio barn rhieni am arfer rhianta gan gynnwys disgyblu. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta. |
| Rheoli ymddygiad, agweddau ac arferion plant: Arolwg Sylfaenol 2013<br><br>**Cyhoeddwyd: 2014** | • Arolwg Omnibws Meintiol<br>• 1,022 o oedolion (56% wedi bod yn rhieni erioed, 27% yn rhieni i blant dan 18)<br>• Yn 2013 | Casglu data ar agweddau'r cyhoedd (gan gynnwys rhieni ac oedolion nad ydynt yn rhieni) tuag at arferion rhianta gan gynnwys disgyblaeth. Defnyddiwyd y canfyddiadau i lywio cymorth rhianta. |
| Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2015<br><br>**Cyhoeddwyd: 2016** | • Meintiol – arolwg ffôn<br>• 387 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed<br>• Gan ddefnyddio rhestr ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Yn 2015 | Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Gwaith maes a gyflawnwyd cyn lansio'r ymgyrch cymorth rhianta *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo* |
| Agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant bach 2017<br><br>**Cyhoeddwyd: 2018** | • Meintiol – arolwg ffôn<br>• 269 o rieni/ gwarcheidwaid plant dan 7 oed<br>• Gan ddefnyddio arolwg ailgysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>• Yn 2017 | Pwyso a mesur agweddau rhieni â phlant bach at rianta a rheoli ymddygiad plant. Roedd yr arolwg hwn fwy neu lai'n ailadrodd ymchwil flaenorol yn 2015 ac fe helpodd i oleuo'r gwaith paratoadol ar gyfer y cynnig i wahardd cosb gorfforol. |
| Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg sylfaenol, 2018<br><br>**Cyhoeddwyd: 2019** | • Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb<br>• 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed<br>• Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort<br>• Yn 2018 | Arolwg sylfaenol ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y |

| | | |
|---|---|---|
| | | gefnogaeth i'r newid hwn. |
| **Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 2, 2019**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2021** | • Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb<br>• 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed<br>• Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort<br>• Yn 2019 | Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolwg sylfaenol a gynhaliwyd yn 2018 |
| **Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 3, 2020**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2021** | • Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb<br>• 1,002 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed<br>• Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort<br>• Yn 2020 | Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018 a 2019. |
| **Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg Ton 4, 2021**<br><br>**Cyhoeddwyd: 2022** | • Meintiol – arolwg wyneb yn wyneb<br>• 1,000 o aelodau o'r cyhoedd 16+ oed<br>• Cynhaliwyd trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort<br>• Yn 2021 | Arolwg ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i archwilio agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol, ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth i ddiddymu amddiffyniad cosb resymol a lefel y gefnogaeth i'r newid hwn, gan adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018, 2019 a 2020. |

## Atodiad B – Holiadur yr arolwg

**Mae'r adran hon yn ymwneud â chosbi'n gorfforol sy'n cynnwys smacio**

**1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ei bod hi weithiau'n angenrheidiol smacio plentyn?**

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**2. Ydych chi'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio'u plant?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**3. Mae'r gyfraith bresennol yn caniatáu i rieni gosbi eu plant yn gorfforol (sy'n cynnwys smacio). Pa lefel o gosb mae'r gyfraith yn ei chaniatáu yn eich tyb chi? Dewiswch faint bynnag sy'n berthnasol yn eich tyb chi.**

**Cosb gorfforol sydd:**

- Yn gadael dim marc o gwbl ar y plentyn
- Yn achosi i'r croen gochi dros dro
- Yn gadael clais sy'n para am ychydig ddyddiau
- Yn gadael marciau a chleisiau sy'n para am yn hwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n arwain at anaf corfforol parhaol
- Ddim yn gwybod
- Wedi gwrthod

**4. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**5. Allwch chi ddweud wrthyf sut y bydd y gyfraith yn newid yn eich tyb chi?**

PENAGORED

**6. Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol?**

- Ar y teledu – newyddion / rhaglen
- Ar y teledu – hysbyseb
- Ar y radio – newyddion / rhaglen
- Ar y radio – hysbyseb
- Mewn papur newydd lleol – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd lleol – hysbyseb
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled Cymru – hysbyseb
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – newyddion / erthygl
- Mewn papur newydd a gyhoeddir ledled y DU – hysbyseb
- Gwefan ar-lein – eitem newyddion
- Gwefan ar-lein – arall
- Y cyfryngau cymdeithasol (heb gynnwys Facebook)
- Facebook
- Mewn cylchgrawn
- Dywedodd rhywun wrthyf (gweithiwr proffesiynol)
- Dywedodd rhywun wrthyf (teulu/ffrind)
- Arall (rhowch fanylion)

Yng Nghymru, mae'r gyfraith mewn perthynas â chosbi'n gorfforol, gan gynnwys smacio, yn newid. Ar hyn o bryd gall rhieni ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod corfforol, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. O 21 Mawrth 2022, bydd amddiffyniad cosb resymol yn peidio â bod ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* ac sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Lle mae'r heddlu'n canfod digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o gael rhiant yn euog bydd rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.

**7. Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn i'r gyfraith o gwbl?**

- Ydw, rwy'n ymwybodol o'r newid
- Ydw – ond ddim yn siŵr o'r manylion
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**8. Pa rai o'r datganiadau canlynol ynglŷn â'r newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau?**

- Rwyf o blaid newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
- Rwyf yn erbyn newid y gyfraith i gael gwared ar amddiffyniad cosb resymol
- Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf i benderfynu
- Ddim yn gwybod

**9. a) Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod o blaid y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

PENAGORED

**b) Allwch chi ddweud wrthyf pam eich bod yn erbyn y newid i'r gyfraith mewn perthynas â chosbi plant yn gorfforol yng Nghymru?**

PENAGORED

**c) Allwch chi ddweud wrthyf pa wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen arnoch?**

PENAGORED

## Atodiad C – Dull Ymchwil

A1.13 Cynhaliwyd yr ymchwil hon trwy Arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Mae arolygon omnibws yn ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf o gynnal ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol. Fel y mae eu henw'n ei awgrymu, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un cyfrwng arolygu, gan ddwyn budd o ran costau is.

A1.14 Mae sampl yr Arolwg Omnibws wedi'i bwriadu i gynrychioli'r boblogaeth oedolion sy'n byw yng Nghymru ac sy'n 16 oed a throsodd. Fe wnaeth argyfwng iechyd y cyhoedd COVID-19 atal arolygon mis Mawrth 2022, mis Tachwedd 2020 a mis Tachwedd 2021 rhag cael eu cynnal yn y modd blaenorol trwy gyfweliadau wyneb-yn-wyneb mewn pwyntiau samplu penodol ledled Cymru. Yn lle hynny, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer arolygon mis Mawrth 2022, mis Tachwedd 2020 a mis Tachwedd 2021 ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint.

A1.15 Mae platfform Cint a'i gynhyrchion yn cydymffurfio ag amryw godau ymddygiad a chanllawiau megis safonau y Gymdeithas Ymchwil Barn ac Ymchwil i'r Farchnad Ewropeaidd (ESOMAR) a'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS). Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Caiff sawl gwiriad ansawdd data eu cynnwys yn system Cint gan gynnwys gwiriad Eiddo Deallusol GEO a CAPTCHA wrth gofrestru, gwiriadau ar gyfer adnabod ymatebydd unigryw ac i ganfod ymddygiad twyllodrus. Hefyd, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a mesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac nid yw'n cynnwys ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

A1.16 Yn ystod yr arolwg defnyddiwyd rheolaethau cwota pleth ar oedran o fewn rhyw. Yn ychwanegol at hynny, defnyddiwyd rheolaeth cwota ar wahân ar gyfer gradd gymdeithasol ac fe gynhaliwyd cyfweliadau gyda thrigolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

A1.17 Ar y cam dadansoddi, caiff y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn pob rhyw o fewn y grwpiad Awdurdod Lleol yn ogystal â gradd gymdeithasol i roi i bob cell ei mynychder cywir o fewn cyfanswm Cymru sy'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Cyflwynir y ffigyrau yn yr adroddiad hwn i'r ganran lawn agosaf.

**Samplu cwota cyfrannol**

A1.18 Pan gaiff data arolygon eu profi o safbwynt arwyddocâd ystadegol, gwneir tybiaeth bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan bod Arolwg Omnibws Cymru'n defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid hap-samplu), nid yw arwyddocâd ystadegol gwirioneddol yn gallu cael ei gadarnhau, a bod yn fanwl gywir. Felly, pan fo gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn cael ei ddisgrifio fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth sy'n arwyddocaol o safbwynt ffug-ystadegol ar y lefel hyder o 95 y cant. Ystyr hyn yw, pe bai'r arolwg yn defnyddio hap-sampl, byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad trwy siawns yn llai nag un mewn 20

**Dadansoddiad Chi-sgwâr**

A1.19 Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas yr arsylwyd arni rhwng dau neu fwy o newidynnau categoreiddiol yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru).

## Atodiad D – Disgrifiad o'r newid i'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd i ymatebwyr yn arolwg mis Mawrth 2022

Yng Nghymru, mae'r gyfraith mewn perthynas â chosbi'n gorfforol, gan gynnwys smacio, yn newid. Ar hyn o bryd gall rhieni ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosod corfforol, ond nid yn erbyn cyhuddiadau mwy difrifol o, er enghraifft, wir niwed corfforol. O 21 Mawrth 2022, bydd amddiffyniad cosb resymol yn peidio â bod ar gael mwyach yng Nghymru i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, a'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* ac sy'n wynebu cyhuddiad o ymosod ar blentyn neu guro plentyn yn eu gofal. Lle mae'r heddlu'n canfod digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o gael rhiant yn euog bydd rhaid iddynt ystyried a yw er lles y cyhoedd eu bod yn dwyn cyhuddiad.

## Atodiad E – Diffiniad o raddau cymdeithasol

Mae Tabl A1.2, isod, yn rhoi diffiniad o'r dosbarthiadau o raddau cymdeithasol [8] a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad

**Tabl A1.2: Diffiniadau o raddau cymdeithasol**

| Gradd gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol uchel |
| B | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol ganolradd |
| C1 | Swydd reoli, weinyddol neu broffesiynol oruchwyliol, glerigol ac iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw crefftus |
| D | Gweithiwr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr radd isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

[8] Diffiniadau'r Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol

## Atodiad F – Meintiau is-samplau

Mae Tabl A1.3, isod, yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli.

**Tabl A1.3: Meintiau samplau'r is-grwpiau**

| Is-sampl | Sampl heb ei pwysoli | Sampl wedi'i pwysoli |
|---|---:|---:|
| **Rhyw[9]** | | |
| Gwrywaidd | 422 | 486 |
| Benywaidd | 575 | 511 |
| **Oedran** | | |
| 16-34 | 370 | 293 |
| 35-54 | 364 | 326 |
| 55+ | 266 | 381 |
| **Gradd gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 607 | 520 |
| C2DE | 393 | 480 |
| **Gofalwr am blentyn 7 oed neu iau[10]** | | |
| Ydy | 285 | 262 |
| Nac ydy | 711 | 733 |

[9] Mae cyfanswm y Dynion a'r Menywod yn 996. Roedd 4 ymatebydd a nododd 'arall' neu 'gwell gen i beidio â dweud' fel ateb hefyd

[10] Mae cyfanswm y gofalwyr am blentyn 7 oed neu iau yn 997. Roedd 3 ymatebydd a nododd 'gwell gen i beidio â dweud' fel ateb hefyd